

# Cofnodion cryno – Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

Lleoliad:

Gellir gwyllo'r cyfarfod ar [Senedd TV](#) yn:

Ystafell Bwyllgora 3 – Y Senedd

<http://senedd.tv/cy/5456>

Dyddiad: Dydd Llun, 10 Mehefin 2019

Amser: 13.20 – 15.15

## Yn bresennol

Categori	Enwau
Aelodau'r Cynulliad:	Nick Ramsay AC (Cadeirydd) Mohammad Asghar (Oscar) AC Vikki Howells AC Rhianon Passmore AC Adam Price AC Jenny Rathbone AC
Tystion:	Dr Andrew Goodall, Llywodraeth Cymru Dr Chris Jones, Llywodraeth Cymru
Swyddfa Archwilio Cymru:	Adrian Crompton – Archwilydd Cyffredinol Cymru Dave Thomas
Staff y Pwyllgor:	Meriel Singleton (Ail Glerc)

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i'r Pwyllgor.



Cynulliad  
Cenedlaethol  
Cymru

National  
Assembly for  
Wales

## **2 Rheoli apwyntiadau cleifion allanol ar draws Cymru: Sesiwn dystiolaeth gyda Llywodraeth Cymru**

2.1 Cafodd yr Aelodau dystiolaeth gan Dr Andrew Goodall, Cyfarwyddwr Cyffredinol Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a Phrif Weithredwr GIG Cymru a chan Dr Chris Jones, y Dirprwy Brif Swyddog Meddygol fel rhan o'r ymchwiliad i reoli apwyntiadau dilynol cleifion allanol ar draws Cymru.

2.2 Cytunodd Dr Andrew Goodall i:

- roi restr o'r gwelliannau y gofynnir i bob bwrdd iechyd eu gwneud
- rhannu'r adborth gan Fwrdd Gweithredu Offthalmoleg ar ganlyniadau'r mesurau newydd ar gyfer gofal llygaid
- rannu enghreifftiau o'r darnau o waith y mae clinigwyr yn arwain arnynt fel rhan o'r gwelliannau sy'n cael eu hysgogi gan y rhaglen gofal wedi'i gynllunio genedlaethol a'r byrddau arbenigol cysylltiedig.

## **3 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y mater a ganlyn:**

3.1 Derbyniwyd y cynnig.

## **4 Rheoli apwyntiadau cleifion allanol ar draws Cymru: Trafod y dystiolaeth a ddaeth i law**

4.1 Trafododd yr Aelodau'r dystiolaeth a ddaeth i law.

## **5 Blaenraglen Waith**

5.1 Yn dilyn penderfyniad y Prif Weinidog i beidio â bwrw ymlaen â phrosiect ffordd liniaru'r M4, fel y'i cyhoeddwyd ar 4 Mehefin 2019, ac yn sgil cyhoeddi manylion am gostau'r prosiect, sydd bellach yn £114 miliwn, cytunodd yr Aelodau fod gan y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus rôl yn ymchwilio i'r gwariant hwn a chytunwyd ar wneud darn byr o waith ar y mater.